Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Environment and Sustainability Committee

Alun Davies AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a
Bwyd
Llywodraeth Cymru

1 Mai 2014

Annwyl Alun

Fel y byddwch yn cofio, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru, y gwnaethom adrodd arno ym mis Ionawr 2013. Gwnaeth ein hadroddiad 13 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, ac mae 10 ohonynt wedi'u derbyn yn llawn a thri mewn egwyddor. Er mwyn monitro'r cynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiad, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau dilynol gyda rhanddeiliaid ym mis Chwefror 2014.

Yn ychwanegol at y dystiolaeth hon, gwnaethom nodi isod ein hasesiad o'r cynnydd. Rydym hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth gennych mewn nifer o feysydd.

**1. Blaenoriaeth y polisi morol**

1.1 Yn ystod yr ymchwiliad cychwynnol, mynegodd y rhanddeiliaid bryderon ynghylch y diffyg blaenoriaeth a roddir i bolisi morol yng Nghymru. Pwysleisiwyd y diffyg blaenoriaeth hwn drwy absenoldeb y cyfeiriadau at bolisi morol mewn ymgynghoriadau sy'n gysylltiedig â strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau

naturiol yng Nghymru, fel Cynnal Cymru Fyw a chreu Cyfoeth Naturiol Cymru.

1.2 Yn ystod ein sesiynau dilynol, croesawyd datblygiadau fel cyhoeddi Cynllun Gweithredu Strategol Morol a Physgodfeydd i Gymru gan randdeiliaid. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon y caiff polisi morol ei ystyried fel sector annibynnol o hyd ac na chaiff ei gynnwys ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd y tystion at Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd fel enghraifft o ble nad oedd polisi morol wedi'i integreiddio ddigon i'r cynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol.

1.3 At hynny, mynegodd y rhanddeiliaid bryder penodol ynghylch y diffyg cyfeiriad a wnaed at y cynigion ar gyfer proses cynllunio morol yn yr ymgynghoriad ar Gynllunio Cadarnhaol a'r Bil Cynllunio drafft, gan nodi nad ydynt yn nodi'r cysylltiadau rhwng y systemau cynllunio daearol a morol.

1.4 Yn ein hadroddiad, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth uwch i bolisi morol. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod cyhoeddi Cynllun Gweithredu Morol a Strategol yn gam pwysig ymlaen, rydym yn siomedig nad yw'r amgylchedd morol wedi cael mwy o ystyriaeth o fewn cynigion Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, nac o fewn Cynllunio Cadarnhaol a'r Bil Cynllunio drafft.

**1.5 Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am sut y caiff y polisi morol ei gynnwys o fewn eich adran a Llywodraeth Cymru a sut y mae'r broses cynllunio morol yn ymwneud â'r cynigion o fewn Cynllunio Cadarnhaol a'r Bil Cynllunio drafft.**

**2. Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol**

2.1 Dywedodd y tystion wrthym eu bod yn teimlo y byddai Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn hollbwysig i sicrhau bod yr holl

brosesau cynllunio daearol a morol yn rhyngweithio'n effeithiol. Fel rhan o'n hymchwiliad cychwynnol, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol cyn gynted â phosibl, ond erbyn mis Ebrill 2014. Cafodd yr argymhelliad hwn ei dderbyn mewn egwyddor.

2.2 Nodwn, na chyfeirir at y Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn y Cynllun Gweithredu Strategol Morol a Physgodfeydd.

**2.3 Gofynnwn ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth adolygu'r strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol a manylion am sut y mae'r gwaith ar y Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn cael ei gynnwys yn y gwaith ar y broses cynllunio morol a'r gwaith ar y Bil Cynllunio drafft.**

**3. Cynllunio gofodol morol**

3.1 Yn ystod ein hymchwiliad gwreiddiol, cawsom ein darbwyllo o bwysigrwydd y broses cynllunio gofodol morol ar gyfer dyfodol yr amgylchedd morol yng Nghymru.

3.2 Rydym yn rhoi croeso cynnes i'r ymrwymiad a wnaed yn y Cynllun Gweithredu Strategol Morol a Physgodfeydd i sefydlu proses cynllunio morol yng Nghymru erbyn 2015.

3.3 Rydym yn ystyriol y dywedodd y rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor yn y sesiynau dilynol fod yr amserlen yn un uchelgeisiol ac y byddai angen llawer o adnoddau arni. Roeddem yn falch o glywed y sicrwydd a roddwyd gennych yn ystod y sesiwn graffu gyffredinol gyda ni eich bod yn hyderus bod gennych ddigon o adnoddau i ddarparu'r broses cynllunio morol ar amser.

**3.4 O ystyried maint y dasg hon a'r ymrwymiadau eraill ar gyfer y polisi morol a wnaed yn y Cynllun Gweithredu Strategol Morol a**

**Physgodfeydd, byddem yn gofyn ichi barhau i adolygu sut y caiff adnoddau eu darparu ar gyfer y camau gweithredu hyn, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd tuag at darged 2015.**

**4. Ardaloedd morol gwarchodedig**

*Rhwydwaith sy'n ystyrlon yn ecolegol*

4.1 Ers cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Ionawr 2013, rydym wedi cael adborth cadarnhaol gan y rhanddeiliaid ynghylch y gwaith sydd wedi'i wneud i feithrin consensws ynghylch rheoli'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol a neilltuo Parthau Cadwraeth Morol ychwanegol. Rydym yn croesawu hyn.

4.2 Rydym hefyd yn nodi eich cyhoeddiad bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad o'r Rhwydwaith presennol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig i nodi unrhyw fylchau, fel rhan o broses ehangach yn y DU. Fodd bynnag, mynegodd rhai o'r rhanddeiliaid bryder i'r Pwyllgor ynghylch y cynnydd a wnaed ers y cyhoeddiad ym mis Gorffennaf, a chwestiynwyd a fydd yr asesiad wedi'i gwblhau mewn amser fel y gall Cymru fodloni gofyniad Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol i sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd sy'n ystyrlon yn ecolegol ar waith erbyn 2016.

4.3 Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor nad oedd yn gwybod hyd yma pryd y byddai'r asesiad wedi'i gwblhau, ond ei fod yn disgwyl cael rhagor o wybodaeth am y prosiect eleni.

**4.4 O ystyried y diffyg eglurder ynghylch yr amserlen ar gyfer cwblhau'r asesiad a'r amser sydd ar gael i gyrraedd targed 2016, byddai'n ddefnyddiol pe gallech gadarnhau i'r Pwyllgor eich bod yn hyderus y cyrhaeddir y targed hwn.**

**4.5 At hynny, gofynnwnn ichi ddarparu amserlen fanwl inni ar gyfer cwblhau'r asesiad a'r camau gweithredu wedi hynny er mwyn neilltuo unrhyw safleoedd ychwanegol.**

*Y broses Parthau Cadwraeth Morol ar y Môr*

4.6 Argymhelliad 11 o adroddiad y Pwyllgor oedd y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r broses Parthau Cadwraeth Morol ar y Môr a redir gan Lywodraeth y DU a sicrhau y gall rhanddeiliaid Cymru gyfrannu at y broses hon.

4.7 Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Mae Cymdeithas Pysgotwyr Cymru wedi mynegi pryder yr ymddengys nad yw'r argymhelliad hwn wedi'i ddatblygu. **Gofynnwn ichi am y wybodaeth ddiweddaraf am y cam gweithredu sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.**

*Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol*

4.8 Mewn perthynas â rheoli ac asesu'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor ei fod wedi datblygu cyfres o egwyddorion a rennir ar gyfer rheoli'r Ardaloedd gyda Llywodraeth Cymru.

4.9 Roedd yn syndod yr ymddengys nad yr ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu'r egwyddorion hyn. Er hynny, rydym wedi nodi sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid. Yn ystod ein hymchwiliad gwreiddiol, cawsom dystiolaeth bryderus ynghylch statws Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol Cymru, ac felly rydym yn croesawu'r gwaith o ddatblygu'r egwyddorion hyn a rennir.

**4.10 Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau y cynhelir ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid ar yr egwyddorion a rennir ac ichi amlinellu amserlen ar gyfer ymgynghoriad o'r fath.**

**5. Adroddiad Erthygl 17**

5.1 Mynegwyd pryder inni gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru a Bangor Mussels Producers Ltd ynghylch cywirdeb adroddiad Erthygl 17 a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (i gydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd). Nodwn fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn trafod gyda'r sefydliadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'i bryderon, a gobeithiwn fod unrhyw broblemau a godwyd wedi'u datrys.

**6. Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

6.1 Nodwyd yn ein hadroddiad bwysigrwydd sicrhau ymgysylltiad da â rhanddeiliaid, a chodwyd hyn hefyd yn ein sesiynau dilynol.

6.2 Yn ei dystiolaeth, nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru y cred fod angen datblygu dull parhaol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar bolisi morol.

6.3 Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru wrthym nad oedd am weld y momentwm a gafwyd drwy grŵp adolygu y rhanddeiliaid ar Barthau Cadwraeth Morol yn cael ei golli. Roedd hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â diystyru diddordeb tebygol rhanddeiliaid yn y broses polisi morol.

**6.4 Er mwyn rhoi sicrwydd inni, gofynnwn ichi gadarnhau'r canlynol:**

a) **sut yr ydych am sicrhau na chaiff y momentwm a gafwyd drwy'r broses o adolygu Parthau Cadwraeth Morol ei golli;**
b) **a ydych yn bwriadu sefydlu dull parhaol ar gyfer ymgysylltiad; ac (os felly)**
c) **y camau y byddwch yn eu cymryd i sefydlu dull o'r fath.**

**7. Data**

7.1 Cawsom dystiolaeth gan y rhanddeiliaid ynghylch y bylchau yn y data a'r dystiolaeth ar yr amgylchedd morol a bod angen cydgysylltu'r data sydd gan sefydliadau gwahanol yn barod mewn ffordd well. Pwysleisiwyd yr angen i wneud hyn yn arbennig mewn perthynas â'r broses cynllunio morol.

7.2 Rydym yn croesawu'r ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Gweithredu Strategol Morol a Physgodfeydd i gyhoeddi strategaeth tystiolaeth morol a datblygu porth cynllunio data morol.

7.3 Rydym hefyd yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd yn ystod ein sesiwn graffu gyffredinol gyda chi ym mis Mawrth y bydd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn parhau i gasglu data ar nythfeydd adar y môr.

7.4 Rydym yn bwriadu parhau i adolygu'r trefniadau hyn o ran casglu data a thystiolaeth wrth iddynt fynd yn eu blaen a **gofynnwn ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni wrth i'r datblygiadau hyn fynd rhagddynt.**

**8. Monitro**

8.1 Cawsom wybod am bryderon y rhanddeiliaid nad oedd y cynigion o fewn yr ymgynghoriad ar y cyd ar y rhaglen fonitro ar gyfer Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn ddigon uchelgeisiol. Cred rhanddeiliaid fod angen cynyddu'r gwaith monitro yn hytrach na defnyddio'r rhaglenni monitro presennol yn unig. Mynegwyd pryder hefyd na fyddai rhai o'r mesurau monitro yn cael eu gorffen tan 2020 gan fod angen sicrhau statws amgylcheddol da yn yr un flwyddyn hefyd.

**8.2 Nawr fod yr ymgynghoriad wedi cau, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y caiff y trefniadau monitro eu datblygu.**


**9. Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd**

9.1 Rydym yn ymwybodol o'r cynigion ar Orchmynion Rheoleiddio a Gorchmynion Unigol ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd.

9.2 Er nad oedd y materion hyn yn rhan o ymchwiliad cychwynnol y Pwyllgor, roeddem yn siomedig o glywed yn ystod y sesiynau dilynol nad oedd y diwydiant o'r farn yr ymgynghorwyd ag ef nac y gwrandawyd arno wrth ddatblygu'r cynigion hyn.

**9.3 Gofynnwn y rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r pryderon hyn wrth ichi barhau gyda'ch gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd.**

Yn gywir,



**Alun Ffred Jones AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd